Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2023 – 2025

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Ffurflen Gais Cynllun Ffioedd a Mynediad

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad:** | **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** |
| **Rhif cofrestru darparydd y DU:** | **10007858** |

| | **Prif gyswllt o fewn y sefydliad** | **Cyswllt ychwanegol o fewn y sefydliad** |
|---|---|---|
| **Enw cyswllt:** | Yr Athro Dylan Jones | Rebecca Doswell |
| **Teitl swydd:** | Dirprwy Is-Ganghellor | Pennaeth Polisi a Chynllunio |
| **Rhif ffôn:** | 01267 676701 | 01570 424751 |
| **Cyfeiriad E-bost:** | d.e.jones@uwtsd.ac.uk | r.doswell@uwtsd.ac.uk |

Nid yw'n ofynnol i'r sefydliad gyhoeddi'r dudalen hon.

# Rhan Un: Gwybodaeth Reoleiddio (nid oes rhaid cyhoeddi hyn)

| | |
|---|---|
| **Adran 2: A yw'r sefydliad wedi'i leoli'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru?**<br>(Paragraffau 39-41 yn y cyfarwyddyd) | |
| Prif gyfeiriad a'r cyfeiriad cyfreithiol os yw'n wahanol | I'w gwblhau dim ond os yw wedi newid yn ddiweddar. |
| Cadarnhau lleoliad yr holl weithgareddau dysgu ac addysgu a faint o fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau yn y lleoliadau hynny. | Gwybodaeth wedi'i diweddaru yn y tabl 'Lleoliadau' yn y fersiwn o Atodiad B a ddarparwyd. |
| Lleoliad yr holl weithgareddau eraill (nad ydynt yn weithgareddau dysgu ac addysgu). | Gwybodaeth wedi'i diweddaru yn y tabl 'Lleoliadau' yn y fersiwn o Atodiad B a ddarparwyd. |
| **Adran 4: A yw'r sefydliad yn elusen?**<br>(Paragraffau 53-56 yn y cyfarwyddyd) | |
| Nodwch enwau, cyfeiriad a rhif cofrestru elusen cyrff eraill sy'n darparu cyrsiau gradd amser llawn ar ran y sefydliad. | Bydd hyn wedi'i nodi mewn unrhyw newidiadau yn y tabl 'Lleoliadau' yn Atodiad B a ddarparwyd. |
| **Adran 7: A yw'r addysg a ddarperir gan ac ar ran y sefydliad yn ddigonol i fodloni anghenion myfyrwyr?**<br>(Paragraffau 73-75 yn y cyfarwyddyd) | |
| Cadarnhad bod gweithdrefnau sicrwydd ansawdd mewnol wedi'u sefydlu ar gyfer ei holl ddarpariaeth addysg. | Mae gweithdrefnau sicrwydd ansawdd mewnol wedi'u sefydlu ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg. Mae'r gweithdrefnau wedi'u nodi yn Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol a gyhoeddir yn flynyddol. Mae pennod 9 y Llawlyfr yn ymdrin yn benodol â darpariaeth a gynigir drwy ddarparwyr eraill. |

| | |
|---|---|
| Datganiad yn cadarnhau bod y sefydliad wedi derbyn adolygiad addysg uwch llwyddiannus (gan gynnwys addysg uwch a ddarperir ar ei ran). Dylech gynnwys dolen gyswllt i'r adroddiad(au). | Cynhaliwyd adolygiad lefel sefydliadol mwyaf diweddar yr ASA ar y Brifysgol ym mis Mai – Mehefin 2015. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y Brifysgol yn 'bodloni disgwyliadau'r DU' yn y pedwar maes allweddol a ddynodir gan yr ASA.<br><br>Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2019, cynhaliodd yr ASA adolygiad o Ganolfan Ddysgu Birmingham y Drindod Dewi Sant. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod Canolfan Ddysgu Birmingham yn 'bodloni gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol' ac yn 'bodloni gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru'.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad datblygu ar ddarpariaeth prentisiaethau Cymru'r Brifysgol ym mis Mawrth 2021.<br><br>Mae modd dod o hyd i gopïau o'r adolygiadau hyn a'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig yma:<br><br>https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/adolygiadau-asa/<br><br>Bu'r Brifysgol yn rhan o Adolygiad Sefydliadol gan yr ASA ym mis Mawrth 2022. |
| Os yw sefydliad yn gweithio drwy ganlyniadau adolygiad er mwyn ymdrin â materion a nodwyd, dylech ddatgan hynny. | Mae'r Brifysgol wedi cadarnhau bod y cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig ag Adolygiad Sefydliadol yr ASA yn 2015 wedi'i gwblhau. Cyhoeddir y fersiwn terfynol ar y wefan (gweler uchod).<br><br>Cadarnhaodd y Brifysgol fod y cynllun gweithredu ar gyfer Adolygiad Rhannol yr ASA o Ganolfan Ddysgu Birmingham wedi'i gwblhau ym mis Chwefror 2021. Cyhoeddir y fersiwn terfynol ar y wefan (gweler uchod). |
| Datganiad yn cadarnhau bod y sefydliad wedi derbyn adolygiad/arolygiad(au) llwyddiannus o'i addysg nad yw'n addysg uwch (gan gynnwys addysg nad yw'n addysg uwch a ddarperir ar ei ran). Dylech gynnwys dolen gyswllt i'r adroddiad(au) a gwybodaeth am ddyddiad yr adolygiad/arolygiad. | Mae'r holl ddarpariaeth Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael ei harolygu gan Estyn (mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth a gyflwynir yn y Brifysgol neu yng Ngholegau cyfansoddol Grŵp PCYDDS).<br><br>Isod mae dolenni i'r adroddiadau arolygiadau mwyaf diweddar, a gyhoeddir ar wefan Estyn:<br><br>Coleg Ceredigion: Chwefror 2013<br><br>Coleg Sir Gâr: Mai 2013 |

| | |
|---|---|
| | Arolygiad o ddarpariaeth DSW (prentisiaeth) yn rhan o B-WBL: Mehefin 2015 |
| Os yw sefydliad yn gweithio drwy ganlyniadau adolygiad/arolwg i fynd i’r afael â materion y tynnwyd sylw atynt, rhaid nodi hynny. | Roedd Estyn i fod i adolygu ein darpariaeth Addysg Bellach ym mis Mawrth / Ebrill 2020, a bu oedi yn hynny oherwydd Covid. Disgwylir i hyn gael ei ail-drefnu yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. |
| Cadarnhad bod cytundebau partneriaeth ar waith â'r holl gyrff eraill sydd naill ai'n darparu addysg ar ei ran neu (lle bo'n berthnasol) yn darparu cymwysterau sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau. | Oes<br><br>Mae'n rhaid i'r sefydliad lenwi'r tabl 'Lleoliadau' yn Atodiad B sy'n rhoi tystiolaeth o hyn. |
| Os yw'r sefydliad heb ei reoleiddio, dylai roi datganiad sicrwydd ansawdd wedi'i lofnodi gan ei gorff llywodraethu. | Amh |

# Rhan Dau: Cynllun Ffioedd a Mynediad (yn ofynnol i’w gyhoeddi)

<table>
<tr><th colspan="2">Cynllun Ffioedd a Mynediad</th></tr>
<tr><td>Enw’r sefydliad</td><td>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant</td></tr>
<tr><td>Hyd y cynllun ffioedd a mynediad</td><td>1 Awst 2023 - 31 Gorffennaf 2025</td></tr>
<tr><th colspan="2">Adran 1 – Lefelau Ffioedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu’r dull o gyfrifo lefel y ffi ym mhob lleoliad<br>(Paragraffau 88-97 yn y cyfarwyddyd)</td></tr>
<tr><th>Lefel ffioedd</th><th>Lleoliad cyrsiau ar gyfer 1 Awst – 31 Gorffennaf 2025</th></tr>
<tr><td rowspan="3">£9,000</td><td>Campysau Cymru: Caerfyrddin, Abertawe<br>Tyst AU<br>Diploma Addysg Uwch<br>HNC<br>HND<br>Gradd Sylfaen<br>Gradd Israddedig<br>Gradd Meistr Integredig<br>TAR</td></tr>
<tr><td>Campws Cymru: Llambed<br>Tyst AU<br>HND<br>Gradd Sylfaen<br>Gradd Israddedig<br>Gradd Meistr Integredig</td></tr>
<tr><td>Campws Llundain<br>Tyst AU</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Gradd Israddedig |
| | **Canolfannau Dysgu Birmingham**<br>Tyst AU<br>Gradd Israddedig |
| | **Lleoliadau Allgymorth De Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Llanelli, Casnewydd, Pontypridd, Caerdydd**<br>Tyst AU<br>Gradd Israddedig |
| £9,000 | **Darparwyr breiniol:**<br>**Coleg Sir Gâr:** HND, Gradd Sylfaen, Gradd Israddedig<br>**Coleg Gŵyr:** HND, Gradd Sylfaen<br>**Grŵp NPTC:** HNC, HND, Gradd Sylfaen, Gradd Israddedig<br>**Coleg Sir Benfro:** HND, Gradd Israddedig |
| £1,800 | **Campws Cymru: Abertawe**<br>Gradd Israddedig – Blwyddyn ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) |

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaethau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, yn unol â'r cyfarwyddyd i ddarparwyr addysg uwch a gyhoeddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynegi bwriad i newid trefniadau ffioedd dysgu ar gyfer cyfnod y cynllun hwn, felly mae'r Brifysgol yn nodi'r ffioedd dysgu blynyddol y bwriadwn eu codi ar ein dysgwyr israddedig amser llawn Cartref ac o'r UE, rhai newydd a rhai sy'n parhau, yn 2023/24 a 2024/25, ar draws pob lleoliad darparu, fel a ganlyn:

| Rhaglen Astudio | Ffi |
|---|---|
| Tyst AU/HNC | £9,000 |
| HND | £9,000 |
| Gradd Sylfaen | £9,000 |
| Graddau Israddedig | £9,000 |
| Blwyddyn Ryngosod (BEng blwyddyn mewn diwydiant) | £1,800 |

| | |
|---|---|
| Gradd Meistr Integredig | £9,000 |
| TAR | £9,000 |

Gan gymryd y ffioedd hyn i ystyriaeth, bydd cyfanswm ffioedd am gwrs cyfan fesul myfyriwr israddedig amser llawn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Israddedigion amser llawn (nid cwrs rhyngosod) | £27,000 |
| Israddedigion amser llawn (gyda chwrs rhyngosod) | £28,800 |
| TAR Amser Llawn (SAC) | £9,000 |

Adran 1.2 – Cyfanswm lefelau ffioedd
(Paragraffau 98-102 yn y cyfarwyddyd)

Cadarnhawn na fydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd i ddysgwyr hyd ddiwedd y cwrs.

Mae'r Brifysgol yn cyfleu gwybodaeth ffioedd i'n dysgwyr trwy ein gwefan ar ein tudalennau cyllid, ac ar ein tudalennau cynllun ffioedd a mynediad. Caiff y Cymorth Ariannol sydd ar gael i Fyfyrwyr ei gyfleu i fyfyrwyr drwy amrywiaeth o ddulliau. Mae'r tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr yn mynychu diwrnodau agored a diwrnodau blasu ac yn cwrdd â myfyrwyr a rhieni (yn rhithiol ac wyneb yn wyneb) cyn iddynt wneud cais a chyn iddynt gyrraedd y Brifysgol. Mae'r tîm yn ateb ymholiadau cyffredinol a phenodol ynghylch cyllid myfyrwyr, yn darparu cyfarwyddyd ar broses gwneud cais am gyllid myfyrwyr, ac mae'n cynghori ynghylch beth sydd ar gael a chymhwysedd o ran bwrsarïau, ysgoloriaethau a chymorth ariannol ychwanegol y Drindod Dewi Sant.

Bydd myfyrwyr sy'n dechrau yn y Brifysgol yn cael llawlyfr rhagarweiniol a gwahoddiad i'w sesiwn gynefino cyn eu diwrnod cyntaf yn y Brifysgol. Mae'r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth gryno ar gymorth ariannol myfyrwyr, yn cynnwys sut i gyrchu cyngor a chyfarwyddyd drwy'r tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr a dolenni i ragor o wybodaeth a ffurflenni cais bwrsarïau perthnasol.

Mae'r broses gynefino i'r holl fyfyrwyr newydd yn cynnwys cyflwyniad i Wasanaethau Myfyrwyr sy'n rhoi disgrifiad cryno o fframwaith bwrsarïau'r Brifysgol gan gyfeirio at y tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr ar gyfer ymholiadau a chymorth. Mae manylion allweddol am ein tîm staff a manylion ein fframwaith bwrsarïau, yn cynnwys meini prawf cymhwysedd, dyddiadau gwneud cais a ffurflenni ar-lein, ar gael ar ein gwefan ac maent ar gael i'n myfyrwyr drwy ap Hwb y Drindod Dewi Sant.

Dosberthir gwybodaeth yn flynyddol i'r holl fyfyrwyr sy'n dychwelyd, yn rhan o weithgarwch cynefino eu cwrs. Mae ein fideos croeso a fideos cyflwyniad i'r Hwb yn cynnwys gwybodaeth benodol ar gymorth cyllid myfyrwyr. O bryd i'w gilydd, caiff e-byst eu hanfon at bob myfyriwr i'w hatgoffa am fwrsarïau sydd ar gael a dyddiadau cau. Hefyd mae systemau cyfeirio ar waith gan Undeb y Myfyrwyr, yr Hwb Myfyrwyr ac Athrofeydd i helpu myfyrwyr sy'n dweud eu bod yn wynebu anawsterau ariannol i gyrchu cymorth unigol gan y tîm Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr. Mae sgwrsfot yr Hwb yn gwneud cyfeiriadau tu allan i oriau ar y wefan. Yn ogystal â'r uchod rydym wedi cynnwys gwybodaeth yn ein prosbectws a chyhoeddiadau canolog eraill sy'n cysylltu â'r wefan a'r Hwb. Mae paneli ar gyfer y Gronfa Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr a'r Bwrsari Cysylltedd Digidol yn cwrdd yn wythnosol drwy'r flwyddyn i gadarnhau cymhwysedd, asesu ceisiadau a dyfarnu cymorth.

## Adran 2 – Partneriaeth Myfyrwyr

(Paragraffau 103-106 yn y cyfarwyddyd)

Yn unol â'n Siartr Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'i dysgwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel. Ers cychwyn cynlluniau ffioedd a mynediad, archwiliwyd nifer o fodelau ar gyfer sicrhau bod llais y dysgwr yn rhan annatod o ddatblygu cynlluniau a'r strategaethau buddsoddi cysylltiedig. Mae strategaethau cynrychioli ac ymgysylltu â myfyrwyr wedi ymgorffori ar draws y Brifysgol. Mae dau swyddog sabothol yn aelodau o Gyngor y Brifysgol a, heblaw am y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae gan bob bwyllgor sefydlog o'r Cyngor aelod-fyfyriwr. Mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, sy'n cynnal goruchwyliaeth lywodraethu dros y broses gynllunio a monitro ffioedd a pherfformiad y Brifysgol o ran bodloni ei hamcanion strategol yn fwy cyffredinol. Drwy Undeb y Myfyrwyr, mae'r dysgwyr hefyd yn cael eu cynrychioli ar y Senedd (yr uwch gorff academaidd) a'i holl bwyllgorau sefydlog. Gall aelod staff o Undeb y Myfyrwyr (fel arfer y Prif Weithredwr) fod gyda swyddogion sabothol yng nghyfarfodydd pwyllgorau academaidd, sy'n darparu ar gyfer gwell parhad o ran dull ac yn cefnogi'r swyddogion sabothol i wneud cyfraniadau gwybodus a dylanwadol i benderfyniadau. Mae Undeb y Myfyrwyr â chynrychiolaeth hefyd ar Weithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n goruchwylio agweddau gweithredol cynlluniau ffioedd a mynediad ac yn derbyn Cynlluniau drafft ac adroddiadau monitro i'w cymeradwyo i uwch swyddogion a llywodraethwyr.

Gan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a thrwy dargedu pwnc-benodol, mae'r Brifysgol wedi gwneud cryn ymdrech i gyflawni'r cyfranogiad gorau posibl mewn arolygon boddhad myfyrwyr, ac i sicrhau bod canlyniadau arolygon o'r fath yn cael eu defnyddio'n systematig i dargedu meysydd i'w gwella a buddsoddi ynddynt. Defnyddir data arolygon hefyd i dargedu meysydd a grwpiau ffocws i archwilio anawsterau ymhellach ac i gynllunio atebion gyda dysgwyr. Gyda chytundeb Undeb y Myfyrwyr, ac yng ngoleuni gwasgariad daearyddol eang ein campysau, mae datblygiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Arolwg Ymgysylltu'r DU (UKES), yr Arolwg Profiadau Ôl-raddedigion a Addysgir (PTES), Holiaduron Modylau, arolygon mewnol eraill ac ymgynghori ehangach a gyflawnwyd yn rhan o bolisïau penodol a fframweithiau strategol (e.e. Strategaeth Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu, Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, Strategaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr, a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol).

Mae gwaith yr Arweinwyr Timau Partneriaeth yn darparu ffynhonnell barhaus o wybodaeth ar gyfer y Brifysgol ynghylch profiadau dysgwyr mewn sefydliadau partner (gan gynnwys ein dysgwyr AU sy'n astudio mewn lleoliadau AB), ynghylch unrhyw rwystrau i gyfranogiad y mae dysgwyr yn eu hwynebu. Mae datblygiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd drwy'r trefniadau hyn.

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu rhannu â Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan Undeb y Myfyrwyr, ac maent wedi bod yn sail ar gyfer gosod y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Mae trefniadau eisoes yn bodoli rhwng y Brifysgol a dysgwyr i roi adborth ar ganfyddiadau o arolygon a'r camau a gymerwyd i ddatrys materion y tynnwyd sylw atynt. Mae Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn monitro cynnydd o ran y Cynllun. Mae cynrychiolaeth Undeb y Myfyrwyr ar y Grŵp hwn yn sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed o fewn ein gweithgarwch monitro a gwerthuso. Rydym yn gweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau y rhoddir adborth ar gynnydd i'r corff myfyrwyr gydol y flwyddyn.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth gan ein Rheolwr Ehangu Mynediad, sy'n sicrhau cydweddu rhwng ein Cynllun Ffioedd a Mynediad a'n hymrwymiadau Ymgyrraedd yn Ehangach.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud y datganiad canlynol i gefnogi'r Cynllun:

*“Rwyf innau, yn ogystal â phobl eraill yn Undeb y Myfyrwyr, yn ddiolchgar dros ben i’r brifysgol am eu tryloywder i’r Undeb o ran eu cynllun ffioedd a mynediad.  Mae’n amlwg iawn bod mewnbwn myfyrwyr, o’r Undeb ac o gorff y myfyrwyr, wedi bod yn flaenoriaeth.  Ynghyd â hyn cafwyd ffocws ar gynyddu’r ffyrdd y gallwn gynnwys yr holl fyfyrwyr, sy’n rhywbeth na ellir ei orbwysleisio o’n safbwynt ni.  Mae hi mor bwysig ymrwymo i’r syniad hwn er budd pawb sydd ynghlwm, ac o ganlyniad mae hyn yn adlewyrchu’r symbiosis cadarn rhwng y Brifysgol, myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.”* James Barrow, Llywydd Campws Llambed.

## Adran 3 – Grwpiau tangynrychioledig

(Paragraffau 107-113 yn y cyfarwyddyd)

Mae’r grwpiau tangynrychioledig a nodir yn y Cynllun hwn yn barhad ar y rheini a nodwyd yn 2022/23.

Er mwyn gosod sail i adnabod ein grwpiau tangynrychioledig ar gyfer ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, aethom ati i ddadansoddi data cofrestru a chadw myfyrwyr a chyflawniad dysgwyr ar gyfer Grŵp PCYDDS ac addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Cadarnhaodd y dadansoddi hwn y grwpiau sy’n dangynrychioledig ar hyn o bryd o fewn Grŵp PCYDDS ac sy’n ffocws blaenoriaethau cenedlaethol ac yn y sector. Ffocws ein Cynllun yw cynyddu cyfranogiad dysgwyr yn y grwpiau hyn trwy nodi rhwystrau i lwyddiant, a pharhau i ddatblygu a darparu cymorth a dargedir.

Ein grwpiau tangynrychioledig, sydd hefyd wedi’u nodi gan CCAUC fel rhai sy’n dangynrychioledig ym maes addysg uwch, yw:

- Dysgwyr rhan-amser
- Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys y rheini yng nghwintel isaf a dau gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a phobl o bob oed o ardaloedd cyfranogiad isel mewn Addysg Uwch yn y DU.
- Myfyrwyr o bob oed sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth gyflwyno ein Datganiad o Fwriad ar gyfer y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach i CCAUC cadarnhaom y byddwn yn gweithio’n agos â’r Bartneriaeth Ymgyraedd yn Ehangach ranbarthol drwy bob dull posibl i gefnogi dysgwyr a myfyrwyr sy’n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ac o fewn y ddau gwintel hwn yn ardal y Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, y rheini sy’n

- bobl ifanc ôl-16 mewn dysgu hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel 4;
- dysgwyr a myfyrwyr ag anabledd;
- dysgwyr a myfyrwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig; a
- dysgwyr a myfyrwyr ym maes dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau’r Gymraeg.

Mae ein grwpiau tangynrychioledig, sy’n seiliedig ar ein cenhadaeth, diben a phoblogaeth fyfyrwyr benodol, yn cynnwys:

- Dysgwyr sy’n datgan anabledd (lle bynnag maent yn byw)
- Dysgwyr o leiafrifoedd ethnig (lle bynnag maent yn byw)
- Dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau’r Gymraeg (lle bynnag maent yn byw)
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mynegir darpariaeth ac ymrwymiad y sefydliad i Ymgyrraedd yn Ehangach yn ein strategaethau ehangu mynediad, ac mae'n cydweddu â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Mae ein harfer Ymgyrraedd yn Ehangach sefydliadol yn cael ei lywio gan asesiad effaith cydraddoldeb parhaus, a bod datblygiadau'n 'gweithredu yn unol ag ysbryd' dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb (2010) ac yn cymryd i ystyriaeth egwyddor cynaliadwyedd, nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Er mwyn cryfhau'r ymrwymiad i'r ddarpariaeth ehangu mynediad, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn Rheolwr Ehangu Mynediad a thîm Cyflawni Ehangu Mynediad.

Mae arweinydd y sefydliad ar gyfer y ddarpariaeth ymgyrraedd yn ehangach yn aelod o grŵp llywio Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP). Mae hyn yn rhoi amlygrwydd i natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio a'u darparu gan y Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, ac mae'n galluogi cynllun y sefydliad i gydweddu'n agos â gweithgareddau'r bartneriaeth drwy osgoi unrhyw ddyblygu a chael trosolwg ar yr holl weithgareddau a ddarperir ar gyfer y grwpiau targed amrywiol. Mae un Swyddog Ehangu Mynediad wedi'i gyllido'n llawn gan y bartneriaeth er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau a gynllunnir yn ategu'i gilydd ac yn darparu'r gwerth gorau am y buddsoddiad a wnaethpwyd. At hynny, mae'r Brifysgol yn cyllido pedair rôl ychwanegol sy'n cyfrannu tuag at weithgarwch ehangu mynediad, ac felly yn rhoi tystiolaeth bellach o'n hymrwymiad i'r agenda hwn.

Nodir ein hymrwymiad i'n dysgwyr sy'n datgan anabledd yn ein Strategaeth Iechyd a Llesiant Myfyrwyr Mae'r Strategaeth yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau bod iechyd a llesiant myfyrwyr yn cael blaenoriaeth er mwyn i bawb allu ffynnu a chyflawni ei botensial. Mae'n mabwysiadu'r canllawiau o'r Datganiad Polisi Iechyd a Llesiant mewn AU gan CCAUC, ac yn ymgorffori nifer o fframweithiau allweddol y sector gan gynnwys Universities UK: Stepchange Mentally Healthy Universities (2020), Student Minds: University Mental Health Charter (2019), Universities UK / Papyrus: Suicide Safer Universities (2018) a'r Health Universities Framework.

Mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (2021-2024) sy'n adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaethpwyd eisoes i fodloni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/2024. Nod y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yw cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol, heb ragfarn na gwahaniaethu, lle caiff ein holl staff a'n dysgwyr eu cefnogi, ac y teimlant eu bod yn cael eu parchu ac yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial llawn. Mae hefyd yn ymgorffori egwyddorion Siarter Cydraddoldeb Hiliol AU Ymlaen ac mae'n mabwysiadu argymhellion dogfen yr UUK, Tackling Racial Harassment in Higher Education. Mae'r Brifysgol wedi cofrestru ym mis Hydref 2021 ar gyfer 5 egwyddor Siarter Cydraddoldeb Hiliol AU Ymlaen yn ogystal â Dim Hiliaeth Cymru ac, yn rhan o'i hymrwymiadau a nodir yn y cynllun hwn, mae'n bwriadu gwneud cais am ddyfarniad Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 byddwn yn creu strwythurau newydd a fydd yn rhoi sylw dyledus i athrofeydd prifysgol technegol a chyflwynir rhagolygon ar yr adeg briodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal ar gyfer pob unigolyn, beth bynnag fo'i gefndir, i gael ei dderbyn ar gwrs sy'n briodol ar gyfer ei allu a'i ddyheadau. Mae ein proses dderbyn yn caniatáu i ni ystyried gwybodaeth ychwanegol drwy ddata cyd-destunol i'n helpu i adnabod potensial unigolyn i lwyddo. Ceir mynediad i fwy o wybodaeth ynghylch sut rydym yn defnyddio data cyd-destunol ar ein gwefan.

## Adran 4 - Amcanion sy'n berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU
(Paragraffau 114-148 yn y cyfarwyddyd)

### Adran 4.1 – Cyfle Cyfartal

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Gwella'r gwaith o hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch gan grwpiau tangynrychioledig |

| | |
|---|---|
| Amcan 2 | Gwella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg |
| Amcan 3 | Cynyddu dilyniant, cadw myfyrwyr a ffigurau cwblhau ymhlith pobl o grwpiau tangynrychioledig |
| **Adran 4.2 – Hyrwyddo addysg uwch** | |
| Amcan 1 | Sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael profiad dysgu cefnogol, cynhwysol o ansawdd uchel er mwyn eu galluogi i wireddu eu potensial llawn |
| Amcan 2 | Datblygu a gwella ein partneriaethau a'n cydffederasiynau â sefydliadau eraill, er mwyn cynyddu i'r eithaf gyfleoedd o ran addysg uwch a dilyniant ar gyfer dysgwyr |
| Amcan 3 | Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru |

## Awdurdodi'r cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC (yn ofynnol i'w gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru a'i fod yn elusen.

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn.

iii. yn cadarnhau bod ymgynghoriad priodol wedi'i gynnal â'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a chyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ran y sefydliad.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn yn gywir a chyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy.

v. yn cadarnhau: **[dylid dileu un neu fwy o ddatganiadau, fel bo'n briodol]**
   a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data am gyllid neu ansawdd a/neu unrhyw wybodaeth/ddata arall a ddelir ganddo am sefydliad a reoleiddir yn gyfredol, waeth a ddarparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol i ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio;

b. ~~nad yw hi’n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data am gyllid neu ansawdd a/neu unrhyw wybodaeth/ddata arall a ddelir ganddo am sefydliad a reoleiddir yn gyfredol i ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015; ac~~
c. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, a mwy diweddar yn sail ar gyfer asesiad CCAUC.

vi. yn deall bod CCAUC yn cadw’r hawl i gynnal ymweliad â’r sefydliad er mwyn cael dealltwriaeth well o gymhwysedd yn gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd mewn cynlluniau ffioedd a mynediad ac/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran.

vii. yn deall bod yn rhaid iddo ddarparu i CCAUC a/neu asiant CCAUC wybodaeth, cymorth a mynediad i’w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy’n darparu addysg uwch ar ei ran.

viii. yn deall y caiff CCAUC gynnal adolygiad yn gysylltiedig ag ansawdd addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, neu drefnu i asiant wneud hynny, a bod yn rhaid i’w gorff llywodraethu roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a gaiff gan CCAUC neu gan y corff a benodir gan CCAUC i’r diben hwn.

ix. yn cadarnhau y rhoddwyd ystyriaeth i’r <u>holl</u> addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, waeth beth yw lefel neu leoliad y ddarpariaeth, yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn.

x. yn cadarnhau bod risg isel i’r sefydliad fethu ar sail ariannol dros y tymor canolig i’r tymor hir.

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig, ac nad yw’r archwilydd cofrestredig o’r un cwmni, nac/neu yr un peth â’r unigolyn a wnaeth baratoi’r cyfrifon.

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

xiii. yn deall bod yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol a wneir i fyfyrwyr yn y cynllun ffioedd a mynediad, fel y cafodd ei gymeradwyo gan CCAUC.

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi’r un gyfran o incwm ffioedd israddedig amser llawn i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch, ac na fydd yn lleihau’r buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a fwriedir i gefnogi’r rheini sydd wedi’u tangynrychioli mewn addysg uwch <u>yn unig</u>.

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol i’r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach sydd yn cydweddu â’i Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a’r Cynllun Gweithredu a gytunwyd.



xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth myfyrwyr.

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau bod copi o’r cynllun ffioedd a mynediad ar gael i’w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat.

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn rhoi cyfarwyddiadau clir i’w fyfyrwyr ynghylch sut i ddilyn prosesau cwyno CCAUC.

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli sy’n astudio ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig.

xx. yn ystyried sut gall y buddsoddiad roi’r gefnogaeth orau i’r myfyrwyr hynny yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan bandemig Covid-19, lle nad ydynt eisoes wedi’u nodi’n grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli.

| **Cyflwyno cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC[1]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | **12 Ebrill 2022** |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  Yr Hybarch Randolph Thomas, Cadeirydd y Cyngor |
| Dyddiad: | **26 Ebrill 2022** |
| **Cyflwyno cynllun ffioedd a mynediad terfynol cyn gynted ag y bydd CCAUC wedi cadarnhau nad yw am godi unrhyw faterion pellach (lle bo’n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | **11 Gorffennaf 2022** |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  Yr Hybarch Randolph Thomas, Cadeirydd y Cyngor |

[1] Rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddir ar wefannau’r sefydliad gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan CCAUC yn unig.

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | **11 Gorffennaf 2022** |